

Diolchgarwch

Darllen: Thesalonïaid 5:18

Beth sy'n ei gwneud hi'n anodd i ni roi diolch ym mhob dim? Ein haerllugrwydd? Mae yna stori yn f'ardal i am wraig fferm adeg cneifio defaid. Bob blwyddyn, roedd yn arfer paratoi cinio i'r ffermwyr a'r ffrindiau oedd wedi dod draw i helpu. Un flwyddyn, penderfynodd y buasai'n rhoi tipyn o fraw i'r criw. Daethant yn brydlon am hanner dydd i eistedd wrth y byrddau, a daeth hithau o'r gegin â phlatiau gwag a'u gosod o flaen y gweithwyr. Edrychai pawb yn syn, ac meddai'i gŵr, 'Beth ydi hyn?' A dyma nhw'n cael pryd o dafod gan y wraig. 'Ers blynnyddoedd rydw i wedi paratoi cinio i chi, a chlywais i'r un ohonoch chi'n dweud gair o ddiolch. Gair bach ydi o, ond mae o'n mynd ymhell.' Roedd y wraig wedi gwasanaethu'n ddirwgnach am flynyddoedd heb air o werthfawrogiad gan y ffermwyr. Gall ein haerllugrwydd ni fod yn rhwystr i ni werthfawrogi a dweud diolch. Ond efallai eich bod chi'n gofyn, 'Beth sydd gennyf i ddiolch amdano?' Iechyd? Efallai nad yw'n iechyd perffaith, ond gallwn fynd a dod. Cartref ac aelwyd? Efallai nad yw'n balas, ond mae'n gartref; mae gennym do uwch ein pennau a gallwn gau'r drws gyda'r nos a themlo fel arglwydd neu arglwyddes yr aelwyd.

Yn aml iawn, mae ein balchder ni'n creu anniolchgarwch. Pan fo dyn yn teimlo fod ganddo hawliau, dydi diolchgarwch ddim yn rhan o'i fywyd na'i eirfa. Ar ddiwedd wythnos neu ddiwedd mis mae'n codi'i gyflog am ei fod wedi'i ennill ac wedi gweithio'n galed amdano. Ar ôl treulio ysbaid yn yr ysbyty, a'r driniaeth wedi bod yn llwyddiannus, does dim rhaid diolch gan fod y cyfan yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd. Dyma'n *hawliau* ni. Munud bach i feddwl! Beth petai Duw yn delio efo ni yn ôl ein hawliau? Edrychwch o ddifrif ar ein bywydau ni – yr hunanoldeb a'r cenfigen sy'n rhan o'n bywydau ni, bob un ohonom. Pwy ydyn ni, i fynnu ein hawliau gerbron Duw? Yng ngoleuni Arglwydd y Greadigaeth does gennym ni ddim hawliau o gwbl. Derbynn rhoddion ydyn ni ganddo Ef.

Mae yna un elfen arall sy'n rhwystr i galon ddiolchgar, sef ein diffyg cred. Y geiriau anoddaf o ddigon yw 'ym mhob peth'. Sut y gallwn ni fod yn ddiolchgar 'ym mhob peth'? Sut all y wraig a fu'n gofalu am ei gŵr sy'n gaeth i'w wely ers ugain mlynedd a mwy fod yn ddiolchgar? Sut all y fam ifanc wynebu bywyd gyda diolchgarwch, a hithau wedi colli ei hail blentyn ar ei enedigaeth? A sut mae'r gŵr canol oed yn mynd i wynebu'r dyfodol, ac yntau wedi cael ei gardiau gan y cwmni y bu'n gweithio iddo ers gadael ysgol?

Dyma lle mae cred yn Nuw yn rhoi goleuni i ni. Fedrwch chi ymddiried ynndo ar y noson dduaf? Fedrwch chi ddiolch iddo pan fo'r caddug yn cau amdanoch? A fedrwch chi fod yn sicr y bydd daioni a thrugaredd yn eich dilyn holl ddyddiau eich bywyd? 'Ym mhob dim rhowch ddiolch' (1 Thesalonïaid 5:18). Cofiwch mai geiriau Paul ydi'r rhain, a doedd o ddim yn ddieithr i ddiodefaint.

Myfyrdod pellach:

Ydych chi'n ei chael hi'n anodd i roi diolch?

Pa elfennau eraill sy'n ein rhwystro rhag dweud diolch?